






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

2 Hydref 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

2 Hydref 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae rhai ffrydiau data yn awgrymu bod cyfradd dwf yr epidemig yn arafu o bosibl, ond mae'n dal i fod yn debygol bod nifer yr achosion o heintiau'n cynyddu'n gyffredinol yng Nghymru.
- Yr amcangyfrif diweddaraf o R_t gan Grŵp Cyngori Gwyddonol Cymru ar Argyfyngau (SAGE) yw rhwng 1.3 ac 1.6. Er y gall fod lefel uchel o amrywioldeb o hyd (er enghraifft, mewn brigiad o achosion yn lleol), mae mwy o hyder bellach yn nibynadwydd yr amcangyfrifon o R a chyfraddau twf o'i gymharu â dau i dri mis yn ôl.
- Ar gyfer yr wythnos 18 Medi i 24 Medi, roedd cyfartaledd o 0.21% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru wedi'u heintio â COVID-19, sy'n cyfateb i tua 1 person ym mhob 500, neu 6,400 o bobl ledled Cymru i gyd yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r canlyniadau hyn yn ansicr gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, ac mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach.
- Mae data symudedd ar gyfer Cymru a'r DU yn dangos gostyngiadau yn bennaf mewn symudedd o'i gymharu â'r wythnos diwethaf, gyda gostyngiadau mwy yng Nghymru. Mae Cymru hefyd yn dangos cynnydd yn y nifer sy'n cadw at ymddygiadau lliniarol allweddol gan gynnwys defnyddio gorchuddion wyneb a'r rhai sy'n gwneud teithiau hanfodol yn unig.
- Oni bai bod mesurau'n dod ag R yn ôl o dan 1, mae'n bosibl y gall nifer yr achosion o heintiau a derbyniadau i'r ysbyty fod yn uwch na lefelau cynllunio senarios.
- Mae awyru yn fesur lliniaru pwysig a dylid ei ystyried ochr yn ochr â mesurau rheoli eraill.
- Mae mewnwelediad ymddygiadol sy'n berthnasol i olrhain cysylltiadau a phobl ifanc yn bwysig i'w hystyried ac mae cyngor y Grŵp Cyngori Technegol ar gael yma: <https://llyw.cymru/y-grwp-cyngor-technegol-deall-ymddygiad-o-ran-systemau-olrhain-cysylltiadau-phobl-ifanc>
- Cyhoeddir papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Grŵp a'r Gell Cyngor Technegol yma: <https://www.gov.uk/government/collections/scientificevidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid19#meeting-minutes-and-supporting-papers>


Cyfradd dwf a rhif atgynhyrchu

- Mae SAGE yn amcangyfrif bod y gyfradd dwf ddyddiol ar hyn o bryd rhwng 0.05 a 0.09 yng Nghymru, sy'n dangos y gallai heintiau fod yn cynyddu hyd at 1% a 5% y dydd.
- Amcangyfrif diweddaraf SAGE o'r rhif atgynhyrchu (R_t) ar gyfer Cymru yw rhwng 1.3 a 1.6. Dangosir yr amcangyfrif o R_t fel ystod heb amcangyfrif canolog.
- Mae ffigurau cyfradd dwf ac R_t yn debyg i'r rhai ar gyfer y DU yn gyffredinol, ond maent yn uwch nag amcangyfrifon yr wythnos diwethaf.
- Bydd gwerth R_t cyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, tra bydd gwerth R_t cyson uwchben 1 yn arwain at gynydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty.
- Er y gall fod lefel uchel o amrywioldeb o hyd, mae mwy o hyder bellach yn nibynadwydd y rhif R ac amcangyfrifon y gyfradd dwf o'i gymharu â dau i dri mis yn ôl.
- Dylid dal i gymryd gofal wrth ddehongli amcangyfrifon R_t a chyfraddau twf ar gyfer y DU, oherwydd wrth eu natur nid ydynt yn gwbl gyfredol, ac mae'r ffigurau hyn yn cuddio amrywiadau yn nifer yr heintiau a sut y mae cyfraddau trosglwyddo yn newid yn rhai rhannau o'r wlad. Gall argaeledd profion hefyd fod yn gyfyngiad.


Diweddariad rhyngwladol

- Fel yr wythnos diwethaf, mae'r DU ar ei hôl hi o ran amser o gymharu â Ffrainc a Sbaen ond yn dilyn llwybr tebyg.
- Mae'r Ffigur isod yn dangos sut mae achosion 14 diwrnod COVID-19 am bob 100,000 o'r boblogaeth wedi newid ar draws Ewrop o wythnos 36 – 38. Mae data ar y darlun ar draws Ewrop, gan gynnwys cafeatau ynghylch oedi data a pholisïau profi amrywiol, ar gael yma: <https://www.ecdc.europa.eu/en/covid-19-pandemic>

Week 37-38




Week 36-37



Glynu at y mesurau presennol a symudedd

- Mae data diweddaraf [IPSOS MORI](#) ar gyfer Cymru yn dangos cynnydd yn nifer o'r cwestiynau sy'n ymwneud â glynu wrth ymddygiadau lliniaru allweddol. Cynyddodd y ganran a ddywedodd eu bod wedi defnyddio gorchudd wyneb ymhellach i 82%, tra bod y rhai a ddywedodd eu bod wedi gwneud triapiau hanfodol ond wedi cynyddu o 38% i 51% - yr uchaf y bu ers dechrau mis Gorffennaf.
- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys oddeutu 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.




- Mae canlyniadau diweddaraf yr [Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau Coronafeirws](#) yn dangos bod 50% o bobl wedi dod i gysylltiad agos (o fewn 1 metr) gydag o leiaf 3 o bobl o'r tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig yn ystod y 7 diwrnod diwethaf. Mae hyn yn debyg i'r canlyniadau o bythefnos yn ôl. Dywedodd 29% o bobl fod eraill y tu allan i'w haelwyd/aelwyd estynedig wedi bod yn eu tŷ yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mae hyn i lawr o 40% yn y pythefnos cyn hynny. Dywedodd 23% eu bod wedi mynd i mewn i un neu fwy o dai eraill yn ystod yr wythnos ddiwethaf (ac eithrio eu haelwyd estynedig) – mae hyn wedi gostwng ychydig o 28% bythefnos yn ôl.
- Mae data symudedd ar gyfer Cymru a'r DU yn bennaf yn dangos gostyngiadau mewn symudedd o'i gymharu â'r wythnos diwethaf, gyda gostyngiadau mwy yng Nghymru.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Mae hyn 9% yn is na'r llinell sylfaen (3% yn is yr wythnos diwethaf). Mae 24% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, i fyny o'r wythnos diwethaf. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hunfan – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.
- Mae [data Apple](#) sy'n dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng eto yn ystod yr wythnos ddiwethaf ac maent bellach yn debyg i ganol mis Gorffennaf. Ar ôl dau fis o fod yn uwch na'r gwledydd eraill o'i gymharu â'r llinell sylfaen, mae Cymru bellach yn debyg i gyfartaledd y DU.

Mae ceisiadau am gyfarwyddiadau cerdded a cheisiadau am gyfarwyddiadau trafndiaeth gyhoeddus ill dau wedi gostwng yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

- Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd bach mewn gweithleoedd a chynnydd ychydig yn fwy mewn lleoliadau preswyl yn ystod yr wythnos diwethaf (h.y. pobl yn treulio mwy o amser gartref na'r wythnos flaenorol). Nid yw categorïau eraill ar gael ar hyn o bryd oherwydd pryderon ynghylch ansawdd y data, ond cânt eu hailddatgan yn fuan.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny drwy gydol mis Awst. Ar ôl gostyngiadau bach yn nechrau i ganol mis Medi, mae'r wythnos diwethaf wedi gweld gostyngiadau mawr yn rhai o'r data symudedd.
- Mae data ffonau symudol dienw ac agregedig gan O2 hyd at 29 Medi wedi dangos, ar ôl cyflwyno'r cyfyngiadau lleol, fod gostyngiadau nodedig mewn teithiau ym mhob ardal y diwrnod ar ôl i'r cyfyngiadau ddechrau (mae pob un wedi dechrau am 6pm). Mae Rhondda Cynon Taf yn dal i ddangos llai o deithiau na chyn y cyfyngiadau tra bod teithiau sy'n dechrau yng Nghaerffili wedi dychwelyd i tua'r un lefel â chyn y cyfyngiadau. Gwelodd Blaenau Gwent ostyngiad cychwynnol ar y 23ain, ond mae'n ymddangos ei fod yn ôl i'r lefelau cyn y cyfyngiadau yn awr. Mae awdurdodau lleol¹ eraill sy'n rhan o'r data yn dangos bod teithiau yn is na'r lefelau cyn gosod y cyfyngiadau.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data. Y gwerth canolrifol ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr - 6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen. Nid yw'r data ar gyfer sawl categori ar gael ar hyn o bryd.

¹ Mae'r data yn ymwneud â'r cyfnod hyd at 29 Medi, felly maent yn ymdrin â'r cyfyngiadau lleol yng Nghaerffili (8 Medi 6pm), Rhondda Cynon Taf (17 Medi 6pm), Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Casnewydd a Thorfaen (22 Medi 6pm), Abertawe a Chaerdydd (27 Medi 6pm). Gan fod y data'n cwmpasu awdurdodau lleol cyfan, nid yw'r cyfyngiadau lleol yn Llanelli (26 Medi 6pm) wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad hwn.



Canlyniadau Arolwg Heintiau COVID-19 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol)

- Ar gyfer yr wythnos 18 Medi i 24 Medi, roedd cyfartaledd o 0.21% o'r boblogaeth gymunedol yng Nghymru wedi'u heintio â COVID-19 (cyfwng credadwy o 95% 0.09% i 0.39%).
- Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 500 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 1,100 i 1 o bob 300), neu 6,400 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 2,700 i 12,100).
- Mae data'n awgrymu bod y gyfradd sydd wedi cael prawf positif wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf, ond y gall fod yn sefydlogi.
- Mae modelau diweddar yn rhoi amcangyfrifon uwch na modelau blaenorol. Fodd bynnag, mae'n bwysig pwysleisio'r ansicrwydd ynghylch y ffigurau hyn. Gan mai cymharol ychydig o brofion positif y mae'r arolwg yn eu casglu o hyd, mae'r canlyniadau'n sensitif iawn i newidiadau bach yn nifer y profion positif hyn.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5637 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19, sy'n gynydd o 57 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemiolegol wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

Ar 30 Medi

- Mae cyfran y galwadau i GIG 111 a Galw lechyd Cymru yn ymwneud â symptomau COVID-19 posibl wedi cynyddu yn ystod yr wythnosau diwethaf.
- Gostyngodd ymgynghoriadau meddygon teulu ar gyfer Heintiau Anadlol Acíwt (ARI) ac amheuaeth o COVID-19 yn wythnos 39 o gymharu â'r wythnos flaenorol.
- Ar hyn o bryd, mae galwadau ambiwlans sy'n gysylltiedig â COVID-19 yn sefydlog.
- Cynyddodd nifer yr episodau COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ac mae'r gyfradd sy'n cael prawf positif bellach yn uwch na 5%.
- Yn ystod wythnos 39, cynyddodd nifer yr achosion ar draws pob grŵp oedran, gyda'r nifer fwyaf o achosion ymhlith y rhai 30-49 oed.
- Mae achosion diweddar wedi cynnwys teithwyr sy'n dychwelyd a throsglwyddiadau lleol gan gynnwys mewn lleoedd gwaith a rhwydweithiau cymdeithasol.
- Mae achosion a gadarnhawyd yn yr Ysbyty a'r Unedau Gofal Dwys wedi parhau i gynyddu yn ystod wythnos 39.
- Mae'r ardaloedd Awdurdod Lleol gyda'r gweithgarwch mwyaf wedi bod yn Ne Cymru yn bennaf, ond mae tueddiadau cynyddol mewn sawl rhan arall o Gymru.
- Adroddir am nifer cynyddol o achosion lluosog, yn bennaf mewn cartrefi gofal preswyl, a chynnydd diweddar mewn ysgolion.
- Gwelwyd y gweithgarwch mwyaf ym Mlaenau Gwent, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf, sefydlwyd safleoedd profion cymunedol symudol yn ddiweddar, ac ar 1 Hydref roedd cyfyngiadau lleol ar waith mewn 15 ardal awdurdod lleol ac mewn un tref (Llanelli).
- Mae gweithgarwch mewn ysgolion yn parhau i gael eu nodi.


Dangosfwrdd Data’r GIG

- Mae'r tabl isod yn rhoi manylion defnydd gwelyau Unedau Gofal Dwys (ICU) ar draws byrddau iechyd yng Nghymru. Diweddarwyd data ysbytai ar 02/10/2020.

Bwrdd Iechyd	Defnydd gwelyau Unedau Gofal Dwys lefel 3 %	Cleifion yr amheuir sydd â COVID-19	Cleifion a gadarnhawyd sydd â COVID-19
BIPAB	59.4%	1	3
BIPBC	57.1%	1	4
BIPCTM	77.5%	4	9
BIPCF	54.4%	3	3
BIPHD	62.5%	0	1
BIPBA	62.1%	2	1
Cymru	60.9%	11	21


- Mae'r Ffigur isod yn dangos cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cael prawf COVID-19 positif ac sydd mewn Unedau Gofal Dwys mewn ysbytai ar draws y gwahanol fyrdau iechyd yng Nghymru.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl a dderbyniwyd i'r ysbyty ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Admissions




- Mae'r Ffigur isod yn dangos nifer y bobl sydd wedi gadael yr ysbyty ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS Hospital Discharges



- Mae'r Ffigur isod yn dangos cleifion a dderbyniwyd i'r unedau gofal dwys ac yr amheuir neu y cadarnhawyd sydd â COVID-19. Mae'r llinell borffor yn cynrychioli'r cyfanswm dros gyfartaledd treigl o 7 diwrnod, tra bod y llinellau llwyd gwannach yn dangos y ffigurau gwirioneddol bryd hynny.

Daily COV+/SUS L3 ICU Admissions

**Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)**

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

